



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 – Rheoliadau yn ymwneud â Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontractau Meddiannaeth a Gwybodaeth Esboniadol

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mawrth 2021  
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 16 Mehefin 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar ddwy set o Reoliadau drafft a wneir o dan adran 23 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, sef:

- Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol) (Cymru) drafft; a
- Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig) (Cymru) drafft

## Sut i ymateb

A wnewch chi ymateb i'r ymgynghoriad hwn os gwelwch yn dda drwy ateb y cwestiynau ar ddiwedd y ddogfen hon. Gellir cyflwyno ymatebion mewn sawl ffordd.

E-bost: [rentinghomes@llyw.cymru](mailto:rentinghomes@llyw.cymru)

Post:Tîm Rhentu Cartrefi  
Yr Is-adran Polisi Tai  
Ail Lawr, Craidd y Gorllewin  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu a ydych yn cynrychioli barn sefydliad.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion cyswllt

Tîm Rhentu Cartrefi  
Yr Is-adran Polisi Tai  
Ail Lawr, Craidd y Gorllewin  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

[rentinghomes@llyw.cymru](mailto:rentinghomes@llyw.cymru)

## Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (UK GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gcontract yr ymgymmerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

e-bost: [Swyddogdiogeludata@llyw.cymru](mailto:Swyddogdiogeludata@llyw.cymru)

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Cynnwys

Pennod 1:	Cyflwyniad .....	6
Pennod 2:	Cefndir y broses ddrafftio .....	7
Pennod 3:	Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru). 10	
Pennod 4:	Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol) (Cymru) 2021 .....	12
Atodiad A:	Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad .....	14

## Pennod 1: Cyflwyniad

- 1.1 Bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ('y Ddeddf') yn ei gwneud yn symlach ac yn haws i rentu cartref yng Nghymru, gan greu un fframwaith cyfreithiol clir yn lle darnau amrywiol, cymhleth o ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli. Bydd 'contractau meddiannaeth' newydd yn cael eu creu yn lle tenantiaethau a thrwyddedau preswyl cyfredol, gan wneud hawliau a rhwymedigaethau'r landlord a'r tenant neu'r trwyddedai (y cyfeirir atynt yn y Ddeddf fel 'deiliad y contract') yn gliriach o lawer. Yn greiddiol i hyn mae'r gofyniad, o dan adran 31 o'r Ddeddf, i landlord ddarparu 'datganiad ysgrifenedig' o'r contract meddiannaeth i ddeiliad y contract.
- 1.2 Er mwyn annog cysondeb yn y ffordd y caiff datganiadau ysgrifenedig eu drafftio, ac i ddarparu cymorth dibynadwy i greu datganiadau ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, mae adran 29(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru *"ragnodi datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol o gontractau ar gyfer contract meddiannaeth o unrhyw fath neu ddisgrifiad sy'n briodol yn eu barn hwy."* Mae is-adran (2) yn nodi bod datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol o'r fath yn ddatganiadau ysgrifenedig sy'n *"ymgorffori'r holl ddarpariaethau sylfaenol ac atodol sy'n gymwys i'r contract hwnnw, heb eu haddasu"*.
- 1.3 Er mwyn ychwanegu ymhellach at gysondeb ac eglurdeb contractau ysgrifenedig, mae adran 32(4) yn nodi bod yn rhaid i ddatganiad ysgrifenedig *"gynnwys gwybodaeth esboniadol am unrhyw faterion a ragnodir."*
- 1.4 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn unrhyw barti â buddiant ar y rheoliadau drafft y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu gwneud o dan adran 29(1) o'r Ddeddf, ac yn arbennig y datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol drafft eu hunain, yn ogystal â'r rheoliadau drafft sy'n nodi'r materion y mae Gweinidogion Cymru am weld gwybodaeth esboniadol amdanynt wedi ei chynnwys mewn datganiadau ysgrifenedig.
- 1.5 Yn achos datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol, caiff eu cynnwys (h.y. y telerau a nodir ynddynt) eu rhagnodi i raddau helaeth gan ddarpariaethau'r Ddeddf a'r rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno. O ganlyniad, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ddyluniad, strwythur a threfn y datganiadau enghreifftiol drafft yn unig, yn hytrach na'r telerau rhagnodedig. At ddiben yr ymgynghoriad hwn, rydym yn defnyddio'r contract safonol cyfnodol a'r contract diogel fel enghraifft.

## **Pennod 2: Cefndir y broses ddrafftio**

2.1 Mae'r wybodaeth esboniadol a rheoliadau'r datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol wedi cael eu drafftio i ystyried ac i adlewyrchu'r mathau o gontractau meddiannaeth a gyflwynwyd gan y Ddeddf a'r cynnwys gorfodol sy'n ofynnol ganddi.

### **Mathau o gontractau meddiannaeth**

2.2 Mae dau brif fath o gontract meddiannaeth:

- Contractau diogel – sy'n seiliedig ar y denantiaeth ddiogel bresennol a roddir gan awdurdodau lleol. Y contract hwnnw fydd y contract diofyn a roddir gan landlordiaid cymunedol (cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol).
- Contractau safonol – sy'n seiliedig ar y denantiaeth fyrddaliadol sicr bresennol. Y contract hwnnw fydd y contract diofyn a roddir gan landlordiaid preifat.

2.3 Y ddau brif fath o gontract safonol fydd:

- Contractau safonol cyfnodol (contractau treigl, er enghraifft yn parhau o un wythnos i'r llall neu o un mis i'r llall yn dibynnu ar y cyfnodau rhentu, a gallent ddilyn contract safonol cyfnod penodol yn awtomatig);
- Contractau safonol cyfnod penodol (ar gyfer cyfnod penodol, er enghraifft blwyddyn neu ddwy flynedd).

2.4 Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer fersiynau gwahanol o'r contract safonol cyfnodol, i'w ddefnyddio gan landlordiaid cymunedol, neu mewn rhai achosion penodol, gan elusennau cofrestredig i ymdrin ag amgylchiadau penodol, sef:

- Contract safonol rhagarweiniol (a ddefnyddir ar gyfer 12 mis cyntaf meddiannaeth);
- Contract safonol ymddygiad gwaharddedig (a ddefnyddir i ymdrin ag achosion difrifol o ymddygiad gwrthgymdeithasol);
- Contract safonol â chymorth (contract i'w ddefnyddio ar gyfer llety â chymorth).

### **Cynnwys datganiadau ysgrifenedig**

2.5 Mae Adran 32 o'r Ddeddf yn nodi cynnwys gofynnol datganiad ysgrifenedig, sef:

- enwau'r partïon i'r contract (h.y. y landlord/landlordiaid a deiliad/deiliad y contract).
- telerau'r contract sy'n 'ymdrin â materion allweddol'. Mae Adran 26 yn nodi bod y materion allweddol ar gyfer pob contract meddiannaeth yn cynnwys: cyfeiriad yr annedd; y dyddiad meddiannu; swm y rhent neu gydnabyddiaeth arall; a'r cyfnodau rhentu. Ar gyfer contractau safonol, mae adran 27 yn nodi bod y materion allweddol hefyd yn cynnwys: pa un a yw'r contract yn un cyfnodol neu wedi ei wneud am gyfnod penodol, os yw wedi ei wneud am gyfnod penodol, hyd y cyfnod hwnnw; os oes cyfnodau pan nad oes gan ddeiliad y contract hawl i feddiannu'r annedd fel cartref, y cyfnodau dan sylw.
- 'telerau sylfaenol' y contract. Nodir y telerau hyn yn y Ddeddf fel darpariaethau sylfaenol. Maent yn ymdrin â hawliau a rhwymedigaethau hanfodol landlordiaid a deiliaid contract ac yn cwmpasu pethau fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, rhwymedigaeth landlord i atgyweirio a'r sail dros droi allan. Er bod yn rhaid i rai telerau sylfaenol ymddangos yn y contract fel y'u nodir yn y Ddeddf, megis yr un sy'n cyfeirio at ymddygiad gwrthgymdeithasol, gall y rhan fwyaf ohonynt gael eu haddasu, ond dim ond os yw hynny'n gwella sefyllfa deiliad y contract. Mae Atodlen 1 i'r Ddeddf yn rhoi trosolwg o'r holl ddarpariaethau sylfaenol yn y Ddeddf a sut y cânt eu hymgorffori mewn contract meddiannaeth fel telerau sylfaenol
- 'telerau sylfaenol' y contract. Mae Adran 23 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi darpariaethau atodol, a gaiff eu hymgorffori mewn contractau meddiannaeth fel telerau atodol. Y rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn fydd Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2021 a Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2021 Mae telerau atodol yn ymdrin â materion mwy ymarferol sy'n helpu i wneud i'r contract weithio, megis gofyniad deiliad contract i dalu rhent neu hawl landlord i gael mynediad i'r annedd. Wrth lunio'r contract, mae'r landlord a deiliad y contract yn gallu cytuno i addasu neu hepgor unrhyw un o'r telerau atodol. Gall telerau atodol gael eu haddasu fel eu bod er budd deiliad y contract neu'r landlord.
- unrhyw 'delerau ychwanegol' y contract. Mae Adran 28 o'r Ddeddf yn nodi mai telerau datganedig y contract yw'r rhain yn hytrach na thelerau sy'n ymdrin â'r materion allweddol, y telerau sylfaenol neu'r telerau atodol. Nid oes gan deler ychwanegol contract meddiannaeth sy'n anghydnaws ag unrhyw un o'r telerau eraill hyn unrhyw effaith. Byddai telerau ychwanegol y mae'r landlord a deiliad y contract yn cytuno arnynt yn cael eu cynnwys mewn contract meddiannaeth i fynd i'r afael â materion sy'n benodol i'r contract hwnnw, megis cadw anifail anwes.
- gwybodaeth esboniadol am y cyfryw faterion ag y gellir eu rhagnodi – h.y. yr hyn a nodir yn y rheoliadau drafft (gweler pennod 3 isod).



2.6 Yn ogystal, rhaid i'r datganiad ysgrifenedig nodi:

(a) unrhyw ddarpariaeth sylfaenol sy'n gymwys i'r contract nas ymgorfforir fel un o delerau'r contract oherwydd adran 20(1) neu 21(2) o'r Ddeddf<sup>1</sup>; ac

(b) unrhyw ddarpariaeth sylfaenol sy'n gymwys i'r contract nas ymgorfforir fel un o delerau'r contract oherwydd adran 21(2), 24(1) neu 25(2) o'r Ddeddf<sup>2</sup>.

---

<sup>1</sup>O dan adran 20(1), nid ymgorfforir darpariaeth sylfaenol fel un o delerau contract meddiannaeth –

- a) os bydd y landlord a deiliad y contract yn cytuno na ddylai gael ei hymgorffori, ac
- b) os mai effaith peidio â'i hymgorffori yw bod sefyllfa deiliad y contract yn gwella.

Os bydd angen peidio ag ymgorffori darpariaeth sylfaenol neu atodol arall o ganlyniad i hynny, o dan adran 21(2), nid ymgorfforir y ddarpariaeth arall honno.

<sup>2</sup> O dan adran 24(1), nid ymgorfforir darpariaeth atodol fel un o delerau contract meddiannaeth os bydd y landlord a deiliad y contract yn cytuno na ddylai gael ei hymgorffori.

Os bydd angen peidio ag ymgorffori darpariaeth sylfaenol arall o ganlyniad i hynny, o dan adran 25(2), nid ymgorfforir y ddarpariaeth arall honno.

### **Pennod 3: Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru)**

- 3.1 Diben cynnwys gwybodaeth esboniadol yn y datganiad ysgrifenedig yw gwneud y contract mor glir a dealladwy â phosibl. Rhaid i bŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 32(4) o'r Ddeddf i ragnodi materion ynghylch pa wybodaeth esboniadol y mae'n rhaid ei chynnwys yn y datganiadau hyn gael ei ymarfer yn unol â hynny. Cyn drafftio'r rheoliadau hyn, ystyriwyd yn ofalus eu cynnwys posibl ac a oes angen gwneud rheoliadau o'r fath. Gwnaed yr ystyriaeth hon gyda'r bwriad o sicrhau na fyddai unrhyw wybodaeth ofynnol yn ychwanegu'n sylweddol nac yn anghymesur at hyd cyffredinol contractau meddiannaeth.
- 3.2 Yn gyntaf, ystyriwyd a fyddai angen rhoi esboniad pellach o gynnwys gorfodol datganiad ysgrifenedig, a ragnodir gan adran 32 o'r Ddeddf. Yn gyffredinol, mae'r cynnwys gorfodol naill ai o'r fath lle na ellid rhoi esboniad pellach (e.e. enwau'r partïon i'r contract) neu, yn achos y darpariaethau sylfaenol ac atodol a gaiff eu hymgorffori fel telerau'r contract, a fyddai mewn perygl o gael ei gamddehongli pe bai unrhyw esboniad yn cael ei ddarparu sy'n ychwanegol at yr hyn sydd eisoes yn bresennol yn y darpariaethau eu hunain. Hynny yw, yn achos y telerau sylfaenol ac atodol, dylai geiriad y Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol fod yn ddigon hunanesboniadol ar ei ben ei hun (byddem hefyd yn disgwyl i eiriad unrhyw delerau ychwanegol fod yn hunanesboniadol).
- 3.3 Fodd bynnag, yn achos y gofyniad i nodi darpariaethau sylfaenol ac atodol cymwys nas ymgorfforir fel telerau'r contract (is-adran 32(3)), er mwyn gwneud synnwyr o'r darpariaethau a nodwyd, ystyrir y byddai angen i ddeiliad contract gael gwybodaeth yn esbonio sut y nodir y darpariaethau hyn.
- 3.4 Yr ail ystyriaeth yw p'un a allai gwybodaeth fod yn ofynnol er mwyn i ddeiliad contract ddeall diben a gwerth ei ddatganiad ysgrifenedig a pha wybodaeth fyddai ei hangen.
- 3.5 Er enghraifft, er y dylai telerau'r contract sy'n seiliedig ar ddarpariaethau'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol fod yn hunanesboniadol, nid ydynt o reidrwydd yn esbonio rhai o elfennau hanfodol eraill y contractau meddiannaeth. Mae hyn yn cynnwys beth yw contractau o'r fath, sut y cânt eu llunio, a'u statws cyfreithiol, eu pwysigrwydd a'u defnyddioldeb. Hefyd, nid yw'r telerau yn esbonio rhai o'r termau allweddol. Ystyrir y gall cynnwys gwybodaeth am y materion hyn mewn datganiadau ysgrifenedig fod yn

hollbwysig er mwyn sicrhau eu bod mor ddealladwy â phosibl i ddeiliaid contractau. At hynny, credir ei bod yn bwysig bod datganiadau ysgrifenedig yn darparu gwybodaeth i ddeiliaid contract am yr hyn y gallent ei wneud pe bai anghydfod yn codi, neu pe bai landlord yn methu â gwneud rhywbeth yr oedd yn ofynnol iddo ei wneud – yn enwedig mewn perthynas â darparu'r datganiad ysgrifenedig ei hun, neu ble y gallai fynd i gael mwy o wybodaeth yn gyffredinol. Oni fydd datganiadau ysgrifenedig yn rhoi rhywfaint o eglurder i ddeiliaid contract mewn perthynas â'r materion hyn, gallai eu heffeithiolrwydd fel ffordd o wella'r ffordd y mae'r sector rhentu yn gweithredu leihau.

- 3.6 Y drydedd ystyriaeth a'r ystyriaeth olaf yw p'un a fyddai cynnwys crynodeb o rai o'r hawliau a'r cyfrifoldebau pwysicaf a roddir gan contract meddiannaeth yn ofyniad priodol. At ei gilydd, ystyrir y byddai crynodeb byr yn bwysig i egluro a thanlinellu ei bwysigrwydd i ddeiliad y contract. Ystyrir hefyd y byddai cynnwys crynodeb o'r fath yn ffordd ddefnyddiol o annog ymgysylltu pellach deiliad y contract â'r contract.

## **Pennod 4: Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol) (Cymru) 2021**

- 4.1 Yng ngoleuni'r disgrifiad o 'ddatganiad ysgrifenedig enghreifftiol' a ddarperir yn y Ddeddf (fel y'i nodir yn adran 29(2)), mae'r rheoliadau drafft yn nodi dau ddatganiad ysgrifenedig enghreifftiol – y contract safonol cyfnodol, a'r contract diogel – y mae pob un yn ymgorffori, heb eu haddasu, y darpariaethau sylfaenol a'r darpariaethau atodol sy'n berthnasol iddynt. Yn ogystal, mae'r ddau ddatganiad ysgrifenedig enghreifftiol drafft yn cynnwys elfennau eraill o gynnwys gorfodol datganiad ysgrifenedig, gan gynnwys gwybodaeth esboniadol am y materion y byddai Gweinidogion Cymru am eu rhagnodi (ond heb gynnwys unrhyw delerau ychwanegol, gan y byddai'r rhain yn amrywio o gontract i gontract). Bydd y contractau enghreifftiol yn hwy na rhai o'r contractau ar hyn o bryd, a hynny am y byddant yn cynnwys yr holl hawliau a rhwymedigaethau statudol perthnasol.
- 4.2 Fel y nodir ym Mhennod 2, mae chwe math o gontract meddiannaeth a nodir yn benodol yn Neddf 2016 a gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol mewn perthynas â phob un o'r rhain. Fodd bynnag, at ddiben ymgynghori ar ddyluniad, strwythur a threfn datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol, darperir y ddau gontract sy'n debygol o gael eu defnyddio amlaf fel sail ar gyfer sylwadau. Byddai'r contractau hyn, wrth eu natur yn cynnwys llawer iawn o gynnwys a fyddai'n cael ei ailladrodd yn y pedwar math arall.
- 4.3 Mae'r ddau ddatganiad ysgrifenedig enghreifftiol drafft yn cynnwys tair "rhan". Mae Rhan 1 yn cynnwys y wybodaeth esboniadol am y materion y bwriedir eu rhagnodi. Mae Rhan 2 yn nodi'r materion allweddol sy'n ofynnol o dan adrannau 26 a 27 o'r Ddeddf. Mae Rhan 3 yn nodi'r telerau sylfaenol ac atodol, ynghyd â chyflwyniad byr a rhestr gynnwys. Mae'r cyflwyniad i ran 3 yn esbonio'r ffordd y nodir testun wedi ei addasu neu ei hepgor sy'n ymwneud â thelerau sylfaenol neu atodol, sef un o'r materion y bwriedir rhagnodi bod gwybodaeth esboniadol yn cael ei darparu amdano.
- 4.4 Mae'r datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol yn ymgorffori'r darpariaethau sylfaenol ac atodol fel y maent yn ymddangos yn y Ddeddf a rheoliadau'r darpariaethau atodol. Fodd bynnag, mae dau brif eithriad i'r rheol hon.
- 4.5 Yn gyntaf, mae'r rhan fwyaf o'r cyfeiriadau yn y darpariaethau at "ddeiliad y contract", neu "ddeiliaid y contract" wedi cael eu troi yn "chi" ac "eich" yn y drefn honno (ynghyd â rhai mân newidiadau gramadegol, cysylltiedig). Ond mae rhai enghreifftiau lle mae "deiliad y contract" ac yn enwedig "ddeiliad contract", wedi cael eu cadw am y tybir eu bod yn fwy priodol.

- 4.6 Yr ail brif eithriad yw nad yw is-adran olaf pob darpariaeth sylfaenol (h.y. y rhan sy'n nodi ei fod yn ddarpariaeth sylfaenol) wedi cael ei chynnwys yn y telerau. Mae hyn am fod natur pob un o'r telerau (h.y. p'un a ydynt yn sylfaenol ac na ellir eu newid/hepgor, yn sylfaenol ond y gellir eu newid/hepgor i wella sefyllfa deiliad y contract, neu'n atodol) yn cael ei nodi yn seiliedig ar fath o ffont, a nodir ar ddechrau Rhan 3 ac yn y troedyn ar bob ail dudalen wedi hynny.
- 4.7 Ceir nifer cyfyngedig o enghreifftiau eraill hefyd lle, yng nghyd-destun un o delerau contract, bu angen gwyro ychydig oddi wrth y testun a ddefnyddiwyd yn y Ddeddf. Er enghraifft, mae cyfeiriadau at 'landlord o dan gontract meddiannaeth' wedi cael eu hepgor ar y sail nad oes angen hyn yng nghyd-destun contract penodol.
- 4.8 Mae'r telerau yn y contract wedi eu trefnu a'u grwpio ar sail eu cydberthynas â'i gilydd, yn hytrach na sut maent yn ymddangos yn y ddeddfwriaeth neu a ydynt yn sylfaenol neu'n atodol. Golyga hyn fod ganddynt yr un rhifau â'r adrannau perthnasol yn y Ddeddf neu'r rheoliadau sy'n ymwneud â darpariaethau atodol.
- 4.9 Yn Rhan 3 o bob datganiad ysgrifenedig enghreifftiol, ceir nifer o flychau testun hefyd sy'n cynnwys "canllawiau". Gydag ond ychydig eithriadau, mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn naill ai:
- yn nodi ble yn y ddeddfwriaeth y mae pethau y sonnir amdanynt yn y telerau, ond nas esbonnir fel arall gan y telerau hynny, yn cael eu hegluro, neu
  - yn gwneud cysylltiadau perthnasol â thelerau eraill yn y contract lle nad eglurir hynny yn y teler perthnasol, neu
  - yn nodi'r amgylchiadau lle y mae telerau penodol yn gymwys ai peidio (h.y. lle mae eu cymhwys yn dibynnu ar gynnwys teler arall yn y contract meddiannaeth).
- 4.10 Nid yw'r canllawiau ar y cyfan yn ceisio esbonio diben nac effaith y telerau sylfaenol ac atodol, ac nid ydynt ychwaith yn 'wybodaeth esboniadol' a ragnodir o dan y pŵer a nodir yn adran 32(4).

## **Atodiad A: Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

### **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle y bo'n berthnasol):

Ai landlord ydych chi?

Ai tenant ydych chi?

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

## Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol) (Cymru) drafft

<b>C1.</b> A yw'r materion y mae'n rhaid rhoi gwybodaeth esboniadol amdanynt yn glir ac yn ddiamwys?	Ticiwch	
	Ydyn	Nac ydyn
Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i egluro eich ateb:		

<b>C2.</b> A yw'r materion y mae'n rhaid rhoi gwybodaeth esboniadol amdanynt yn briodol?	Ticiwch	
	Ydyn	Nac ydyn
Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i egluro eich ateb:		





## Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol) (Cymru) drafft

<b>C4.</b> A ydych o'r farn y dylai fod chwe math o ddatganiad ysgrifenedig enghreifftiol - sef, safonol cyfnodol, safonol cyfnod penodol, diogel, safonol rhagarweiniol, safonol ymddygiad gwaharddedig a safonol â chymorth?	Ticiwch	
	Ydw	Nac ydw
Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i egluro eich ateb:		

<b>C5.</b> A yw diwyg a fformat pob datganiad ysgrifenedig enghreifftiol yn hawdd eu deal?	Ticiwch	
	Ydy	Nac ydy
Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i egluro eich ateb:		

<b>C6.</b> A yw'r telerau ym mhob datganiad ysgrifenedig enghreifftiol wedi'u grwpio a'u trefnu mewn ffordd briodol?	Ticiwch	
	Ydyn	Nac ydyn
Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i egluro eich ateb:		

<b>C7.</b> A yw'r ffordd y mae statws pob teler yn cael ei nodi (e.e. mae telerau sylfaenol na ellir eu hepgor o'r contract neu delerau sylfaenol na ellir eu newid mewn print italig ac wedi'u tanlinellu; mae telerau sylfaenol y gellir eu hepgor neu eu newid mewn print italig; ac mae telerau atodol wedi'u tanlinellu) yn glir?	Ticiwch	
	Ydy	Nac ydy
Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i egluro eich ateb:		

<b>C8.</b> A yw'r nodiadau cyfarwyddyd a gynhwysir yn Rhan 3 o bob datganiad ysgrifenedig enghreifftiol yn glir ac yn ddigonol?	Ticiwch	
	Ydyn	Nac ydyn
Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i egluro eich ateb:		

## Cyffredinol

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y gallai'r rheoliadau arfaethedig a'r datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol drafft, fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori, eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**C9.** Yr Effaith ar y Gymraeg.

Pa effaith fyddai'r rheoliadau arfaethedig a'r datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol drafft yn ei chael ar y Gymraeg yn eich barn chi?

**C10.** Yr Effaith ar y Gymraeg.

Rhowch unrhyw sylwadau ynghylch sut y gellid eu llunio neu eu newid, er mwyn sicrhau:

- i) y cânt effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- ii) na fyddant yn amharu ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**C11. Sylwadau Cyffredinol Eraill**

A oes unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ynghylch yr ymgynghoriad hwn neu'r rheoliadau drafft?

Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os ydych am i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: